

Cynadleddau, Cyfarfodydd a Digwyddiadau Arbennig yn Y Ganolfan Rheolaeth



Opsiynau Arlwyo yn Y Ganolfan Rheolaeth, Prifysgol Bangor

Mae Tîm Arlwyo mewnol, profiadol y Ganolfan Rheolaeth yn gallu cynnig detholiad amrywiol o opsiynau arlwyo ar gyfer eich cynhadledd, cyfarfod neu ddigwyddiad.

Mae ein bwydlenni yn manteisio ar ystod gwych o gynnyrch lleol a thymhorol. Mae'r dewisiadau yn amrywio o fwydlen brecwast blasus, bwffe amser cinio poeth neu oer; cynigion amser cinio arbennig a phecynnau swper pwrpasol.

Rydym hefyd yn gallu cynnig derbyniadau canapés a diodydd pwrpasol wedi'u gweini yn neuadd hanesyddol Hugh Owen yn ein Bar Lolfa cyfoes gyda golygfeydd ar draws y Fenai i Ynys Môn.

Gellir darparu bwydlenni hefyd ar gyfer gofynion dietegol arbennig, gyda chynllun prisiau hyblyg.

Opsiynau Arlwo

- 01 Opsiynau Brecwast
- 02 Bwydlenni Bwffe Corfforaethol
- 03 Bwffe Poeth Corfforaethol
- 04 Canapés
- 05 Arlwyo Digwyddiadau Arbennig
- 06 Diodydd
- 07 Pecynnau Diodydd
- 08 Priodasau
- 09 Archebu

Chi biau'r dewis ...

Am wybodaeth bellach neu gymorth i gynllunio eich cynhadledd, cyfarfod neu ddigwyddiad, cysylltwch â'n Tîm Digwyddiadau ymroddedig ar 01248 365 912 neu digwyddiadau@themanagementcentre.co.uk a byddant yn hapus i helpu.

Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn falch i weini **Coffi Costa** yn Siop Goffi Hugh Owen



Mae ein Baristas wedi'u hyfforddi'n llawn i ddarparu ystod eang o Goffi Costa, te arbenigol yn ogystal â detholiad o eitemau brecwast, prydau ysgafn, brechdanau wedi'u llenwi, cacennau a theisennau. Ar agor bob dydd.

Opsiynau Brecwast ar gyfer eich digwyddiad bore o 7:00yb - 10:00yb

Croissants.....	£1.75 y pen
Teisennau Danaidd.....	£1.75 y pen
Dewis o iogwrt ffrwythau ffres.....	£0.80 y pen
Ffrwythau Ffres.....	£1.50 y pen
Rholiau Cig Moch / Selsig / Llysieuol.....	£2.75 y pen
Brecwast Cyfandirol.....	£6.00 y pen
Brecwast Llawn wedi'i goginio.....	£11.00 y pen
Te a choffi ffres.....	£1.50 y pen
Detholiad o de arbennig.....	£1.75 y pen
Jwg o Sudd Oren, Afal neu Lugaeron Ffres.....	£6.00 (5-6 gwydraid)
Pecyn Cinio (ar gael ar gais).....	£5.00 y pen

Bydd pecynnau brecwast ar gyfer 10 neu fwy o bobl yn derbyn Sudd Oren, Afal neu Lugaeron ffres am ddim

Opsiynau Bwffe Corfforaethol

Mae pob bwffe yn cael eu paratoi'n ffres ac ar gael ar gyfer eich digwyddiadau amser cinio neu gyda'r nos

Bwffe A£6.75 y pen

- Brechdanau a rholiau agored a wnaed yn ffres gyda llenwadau cig, pysgod a llysieuol ar fara brown a gwyn
- Dewis o greision llysiau a thatws
- Sudd ffrwythau
- Browni Siocled Cyfoethog

Bwffe B£8.75 y pen

- Brechdanau a rholiau agored a wnaed yn ffres gyda llenwadau cig, pysgod a llysieuol ar fara brown a gwyn
- Rholiau Selsig bychan
- Bruschetta Sbigoglys a Feta (ll)
- Sgiwerau Cyw lâr wedi'u marinadu gyda dip
- Blinis gydag Eog wedi'i fygau a Chaws Hufen
- Dewis o greision llysiau a thatws
- Plât Melys
- Plât o Ffrwythau Ffres
- Sudd Ffrwythau

Bwffe C£12.50 y pen

- Brechdanau a rholiau agored a wnaed yn ffres gyda llenwadau cig, pysgod a llysieuol ar fara brown a gwyn
- Rholiau Selsig bychan
- Casgliad o flasusfwyd llysieuol (ll)
- Crostinis Tomato, Mozzarella a Pesto (ll)
- Sgiwerau Cyw lâr wedi'u marinadu gyda dip
- Blinis gydag Eog wedi'i fygau a Chaws Hufen
- Tameidiau o Frowni Siocled Cyfoethog
- Plât o Ffrwythau Ffres
- Sudd Ffrwythau

Bwffe Dewis Iach£10.00 y pen

- Tafelli o fara gwenith cyflawn gyda thaeniad ysgafn ac wedi'u llenwi â;
 - Salad Twrci
 - Tiwna a Chiwcymbr mewn Mayonnaise Ysgafn
 - Caws Hufen Braster Isel a Chennin Syfi
 - Wyau a Dail Roced
- Dewis o crudités wedi'u gweini â dip Hummus
- Sgiwerau bach Cyw lâr a Llysiau
- Eog wedi'i fygau a Crème Fraiche ysgafn ar Graceri Reis
- Creision Llysiau wedi'u pobi
- Sgiwerau Ffrwythau Ffres gyda dip iogwrt a mêl
- Sudd Ffrwythau

Ychwanegwch Te, Coffi a Bisgedi i unrhyw un o'r bwffe uchod am £1.50 y pen

Opsiynau Bwffe Poeth (Wedi'i weini o ddysglau tsiaffwr) - £17.50 y pen

Dewiswch un pryd cig/ pysgod, un pryd llysieuol, ynghyd ag un pwdin

Cig / Pysgod

- Pastai Cyw Iâr a Madarch Cartref
- Pastai Stêc a Chwrw Cartref
- Cyri Cyw Iâr Hufennog
- Rogan Josh Cig Eidion
- Stroganoff Cig Eidion
- Lasagne Cig Eidion Cartref
- Pastai Pysgod gyda Stwnsh Hufennog ar ei ben

Llysieuol

- Stroganoff Madarch a Llysiau (ll)
- Cennin a Thatws wedi'u pobi gyda chaws Cheddar Cymreig (ll)
- Lasagne Llysiau wedi'i Rostio (ll)
- Tshili Pum Ffa

Wedi'u gweini gyda Salad Dail Cymysg, Rholiau Crystiog Cynnes a Menyn a **naill ai:** Tatws Menyn Persli, Sglodion tenau neu Reis

Pwdin

- Browni Siocled Cynnes gyda Saws Siocled a Hufen Iâ Fanila
- Cacen Gaws Gartref o Fefus gyda Saws Mafon
- Tarten Lemwn sawrus gydag Aeron a Hufen wedi'i Chwipio
- Pwdin Taffi Gludiog gyda Saws Menyn a Hufen Iâ Caramel
- Crymbl Tymhorol wedi'i weini â Hufen/ Hufen Iâ

Gellir ychwanegu eitemau at unrhyw un o'n pecynnau a gellir eu prasio yn ôl y gofyn

Rydym yn gallu darparu detholiad gwych o ganapés poeth ac oer sy'n addas ar gyfer pob chwaeth.

Mae'r fwydlen canapés yn cyfuno cynhwysion lleol a thymhorol, a gall fod mor gyfoes neu draddodiadol ag yr ydych yn dymuno.

Cysylltwch â ni am restr lawn o ganapés i chi ddewis ohonynt.

Ewch i **Dudalen 7** o'r pecyn hwn i ddod o hyd i fanylion am ein pecyn diodydd.

Bwydlenni Cinio Nos

Gallwn gynnig bwydlen cinio 2 neu 3 chwrs. Gellir darparu bwydlenni hefyd ar gyfer gofynion dietegol arbennig, gyda chynllun prisiau hyblyg.

Bwydlen Enghreifftiol

Cwrs Cyntaf

- Pate Iau Cyw Iâr gyda Siytni Nionod wedi'u carameleiddio a Bara Gwledig
- Tarten Caws Gafr a Thوماتos gyda Salsa Nionyn Coch
- Terîn Madarch Gwyllt a Hoc Ham wedi'i weini â Piccalilli, Salad Perlysiâu Bach a Bara Surdoes

Prif Gwrs

- Brest Cyw Iâr wedi'i lapio menw Ham Parma, wedi'i weini â Saws Madarch Gwyllt, Tatws Ffondant a Llysiâu (Halal)
- Cig Eidion Cymreig wedi'i frwysio a'i weini gyda Saws Gwin Coch Cyfoethog, Madarch Gwyllt a Sialotsyn gyda Tatws Rhost Parmentier a Moron gyda sglein mêl
- Ffiled Eog gyda Thatws Newydd wedi'i falu, Broccoli Tender Stem a Ffa Gwyrdd wedi'i weini â Saws Hufen Tarragon

Llysieuol

- Wellington Sbigoglys, Llysiâu a Brie gyda Thatws Parmentier a Moron Bach gyda Sglein Mêl
- Halloumi o'r gridyll, Tatws Newydd a Frittata Llysiâu Mediteranaidd gyda Broccoli Tender Stem, Pupur Melyn a Coulis Pupur Coch
- Caws Gafr, Winwns Coch a Chennin mewn Saws Hufen wedi'i osod mewn Tarten gyda Thatws Stwnsh a Llysiâu Tymhorol

Pwddin

- Pastai Afal Cartref gyda Crymbl Sinamon wedi'i weini â Chwstard Fanila
- Browni Siocled Cyfoethog gyda Compot Mefus a Hufen Chantilly
- Detholiad o Gaws Cymreigaidd, gyda Grawnwin a Bisgedi

Diodydd & Rhestr Gwin

Dŵr Mwynol Pefriog Cymreig 250ml.....	£1.00 y botel
Dŵr Mwynol Cymreig 250ml.....	£1.00 y botel
Dŵr Mwynol Pefriog Cymreig 750ml.....	£3.00 y botel
Dŵr Mwynol Cymreig 750ml.....	£3.00 y botel
Jwg o Sudd Oren Ffres / Sudd Afal / Sudd Llugaeron.....	£6.00 (5-6 gwydriad)
Te, Choffi a Bisgedi	£1.75 y pen
Te a Choffi ar ôl cinio.....	£1.25 y pen
Te, Coffi a siocledi mint ar ôl cinio.....	£1.75 y pen
Te, Coffi a Petit Fours	£2.25 y pen
Prisiau ddim yn cynnwys TAW	

Gwin Gwyn

Volandas Sauvignon Blanc 2015 Chile (1) ABV 13%.....	£14.00	La Forge Marsanne, Domaine Paul Mas. France (2) ABV 13%.....	£18.00
Kleindal Chenin Blanc 2015. S. Africa (3) ABV 12.5%.....	£14.00	Chablis Paul Delane 2014 France (1) ABV 12.5%.....	£21.00
Willowglen Pinot Grigio 2015. Australia (2) ABV 12%	£16.50	Wairau River Sauvignon Blanc 2016. New Zealand (1) ABV 13.5%.....	£22.50

Gwin Coch

Volandas Cabernet Sauvignon 2014. Chile (C) ABV 13%	£14.00	La Forge Pinot Noir 2015. France (B) ABV 13.5%	£18.00
Willow Glen Merlot. Australia (C) ABV 13.5%	£16.50	Vat 8 Shiraz, De Bortolo 2014.. Australia (D) ABV 14%	£18.50
Artesa Rioja Tempranillo 2015. Spain (B) ABV 13.5%	£17.00	Del Fin Del Mundo Malbec 2014 Argentina (D) ABV 14.5%.....	£22.50

Gwin Rosé

770 Miles Blush Zinfandel 2015. California (3) ABV 10.5%.....	£15.50
---	--------

Gwinoedd Pefriog a Siampên

Prosecco Zonin NV Italy (1) ABV 11%.....	£19.00
Tattinger Brut NV France (1) ABV 12.5%.....	£48.00
Tattinger Rosé NV France (1) ABV 12%.....	£55.00

Mae rhestr win lawn ar gael ar gais. Gallwn hefyd gynnig diodydd tymhorol i gydweddu â'ch cyllideb

Gallwn gynnig y pecynnau diodydd hyn i gydweddu â'ch digwyddiad

- Gwin coch, gwyn, rosé
- Gwin Pefriog, Prosecco a Siampên
- Diodydd tymhorol - Gwin cynnes, Pimms
- Amrywiaeth o ddiodydd Di-alcohol

Priodasau yn Y Ganolfan Rheolaeth, Prifysgol Bangor

Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn lleoliad delfrydol ar gyfer priodas arbennig, unigryw, waeth pa mor fawr neu fach...

Dathlwch mewn steil yn Neuadd Hugh Owen, neuadd hanesyddol brydferth sydd wedi cael ei hadnewyddu'n fanwl, gyda digonedd o gymeriad.

Saif y Ganolfan Rheolaeth ar lan y Fenai gyda golygfa hyfryd i gyfeiriad Ynys Môn, ac mae ganddi gwadrant y tu allan sy'n gefndir perffaith ar gyfer y lluniau hollbwysig hynny. Mae'r cwadrant hefyd yn lleoliad perffaith ar gyfer derbyniad diodydd anffurfiol ar y lawnt. Mae gennym hefyd far gwych gyda golygfeydd rhagorol y gellir ei osos ar gyfer eich union ofynion.

Pecynnau Arlwyo Gwledd Briodas

Rydym yn ymfalchio mewn bod mor hyblyg â phosibl; gyda phecynnau priodas o £60 y pen.

Trefnu ymweliad lleoliad a chwrdd â'r Rheolwr Arlwyo a Chynhadledd

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am briodasau yn y Ganolfan Rheolaeth, neu os hoffech gael sgwrs neu drefnu ymweliad, cysylltwch â'n tîm Digwyddiadau ar digwyddiadau@themanagementcentre.co.uk neu ffoniwch **01248 365 912**.

Archebwch eich Dewisiadau Arlwyo drwy gysylltu â'n Tîm Digwyddiadau drwy e-bost neu dros y ffôn

Ff: +44 (0) 1248 36 5912

F: +44 (0) 1248 36 5947

E: digwyddiadau@themanagementcentre.co.uk

Er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni eich gofynion, archebwch o leiaf 48 awr cyn y digwyddiad.

Ar gael yn Y Ganolfan Rheolaeth

- Llety 4*
- Bar Lolfa Busnes
- Bwyty / Bar 1884
- Coffi Costa
- Ystafelloedd Cynadledau a Chyfarfod

